



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2016

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	30/03/2017
2	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi—</p> <p>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,</p> <p>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac</p> <p>(c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 2 yn yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">○ wrth ohebu ag unigolyn sydd yn barti neu yn barti ag enwir gyda diddordeb mewn achos Tribiwnlys.	30/03/2017
3	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy’n aelodau o’r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i’r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth	30/03/2017

		<p>oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os—</p> <p>(a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;</p> <p>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 3 yn yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ wrth ohebu ag unigolyn sydd yn barti neu yn barti ag enwir gyda diddordeb mewn achos Tribiwnlys. 	
4	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	30/03/2017
5	Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	30/03/2017
6	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	30/03/2017
7	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan—	30/03/2017
		<p>(a) mewn gohebiaeth, a</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i</p>	

		anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	30/03/2017
9	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2017
11	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	30/03/2017
12	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
13	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	30/03/2017
14	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd	30/03/2017

		gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	
15	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	30/03/2017
16	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	30/03/2017
17	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod, yn Gymraeg, i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	30/03/2017
19	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	30/03/2017
20	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	30/03/2017

21	Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn ffonio unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o’i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 21 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gofyn i A a yw’n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, pan eich bod eisoes wedi gofyn a derbyn ymateb drwy ffurf arall. 	30/03/2017
22	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu’r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	30/03/2017
24	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person (“P”) yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai’n dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg at y diben hwnnw.	30/03/2017
24A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person (“P”) yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2017
25	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw’n dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod.	30/03/2017
25A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o’r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg	30/03/2017

		ar gael yn y cyfarfod.	
25D	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	30/03/2017
33	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2017
34	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	30/03/2017
36	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 36 ym mhob amgylchiad, ac eithrio: o dogfennau penderfynu [Gweler safon 43]	30/03/2017
43	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliaid, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	30/03/2017
44	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin	30/03/2017

		unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	
45	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2017
46	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	30/03/2017
46A	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	30/03/2017
46B	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	30/03/2017
47	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	30/03/2017
48	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddatgan mewn cyhoeddiadau, canllawiau a hysbysiadau yr ydych yn eu llunio sy'n hysbysu personau am achosion cyfreithiol y cânt gyflwyno ffurflenni a dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ichi yn Gymraeg.	30/03/2017
49	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi ofyn i'r person ddynodi a yw'n dymuno siarad yn Gymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol.	30/03/2017

50	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person ("P") yn cysylltu â chi am y tro cyntaf i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi ofyn i P ddynodi a yw'n dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio ac sydd i fod ar gael i P (gan gynnwys, er enghraifft, benderfyniadau neu orchmynion ysgrifenedig mewn perthynas â'r achos cyfreithiol hwnnw).	30/03/2017
50A	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person ("P") yn cysylltu â chi i gychwyn achos cyfreithiol neu i ymateb i achos cyfreithiol, a bod P yn dynodi ei fod yn dymuno cael copïau yn Gymraeg o ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio ac sydd i gael eu rhoi ar gael i P, rhaid ichi— (a) darparu'r ffurflenni a'r dogfennau hynny yn Gymraeg mewn perthynas â'r achos cyfreithiol hwnnw, a (b) peidio â'u trin wrth eu llunio yn llai ffafriol na ffurflenni a dogfennau yr ydych yn eu llunio yn Saesneg.	30/03/2017
51	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan foch yn cael ffurflenni neu ddogfennau yn Gymraeg gan berson ("P") sy'n cychwyn achos cyfreithiol neu'n ymateb i achos cyfreithiol, rhaid ichi beidio â thrin y ffurflenni neu'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na'r rhai y byddech yn eu cael yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer cael y ffurflenni a'r dogfennau hynny a hysbysu P am benderfyniadau).	30/03/2017
52	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	30/03/2017
55	Cyflenwi Gwasanaethau	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y	30/03/2017

		dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	
56	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	30/03/2017
61	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	30/03/2017
62	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2017
63	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	30/03/2017
69	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	30/03/2017
70	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	30/03/2017
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	30/03/2017

77	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	30/03/2017
78	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
83	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
84	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
85	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017

86	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
87	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
88	Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	30/03/2017
140	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	30/03/2017
141	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017
142	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	30/03/2017

143	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017
149	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.	30/03/2017
150	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.	30/03/2017
151	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan.	30/03/2017
152	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.	30/03/2017

		<p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.</p>	
153	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017
154	Atodol - Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017
155	Atodol - Llundio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.	30/03/2017
156	Atodol - Llundio Polisi	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p>	30/03/2017

		(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.	
157	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan.	30/03/2017
158	Atodol - Llunio Polisi	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.	30/03/2017
159	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	30/03/2017
160	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r	30/03/2017

		safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	
167	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.	30/03/2017
168	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	30/03/2017

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/09/2016